



Cymdeithas Edward Llwyd  
Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027

# Bwletin Llên Natur 12

i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru - Rhifyn 1 onawr 2009  
www.llennatur.com



## Blwyddyn yr Adar Cynffon Sidan

Glaniodd heidiau o adar cynffon sidan ar hyd dwyrain Prydain ar ôl y tywydd oer o'r gogledd ym mis Tachwedd. Gwelodd Marc Hughes (Prifathro Ysgol Craig y Don, Llandudno) a'i ddisgyblion fintai ohonynt yn Llandudno yr un pryd. Meddai Marc: "gwelwyd pedwar ohonynt a threuliodd eu hamser yma yn bwydo ar aeron y griafolen yn ystod y prynhawn. Tynnwyd lluniau gan Matthew Cartwright a Lawrence Bird o flwyddyn 5 [dyma un ohonynt]. Adar bendigedig a'r ail waith mewn pedair blynedd iddynt ddewis ein hysgol ni i ymweld!" Go dda Matthew a Lawrence [Gol.].

Cafwyd cofnod cyntaf o "Flwyddyn Adar Cynffon Sidan" yn Garth Meilo, Sir Ddinbych yn 1788: *though shot in 1788 [the stuffed body] is in perfect condition. The account on the back of the case...reads as follows : Bohemian Chatterer or Waxwing. (Bombycilla garrula.) Kill'd during the cold Frost in December, 1788, at Garth-Meilio, in the County of Denbigh, by Mr. William Dod, of Edge, in Cheshire. It was perching in one of the Fir Trees in the Avenue to the House.*

*British Birds* Awst 1908


## Mewnfudwr "anghyfreithlon" o Awstralia

Bûm yn dal gwyfynod mewn trap golau yng ngardd Gwelfor, Waunfawr, pedair milltir o Gaernarfon ers 1996. Dangosir tueddiadau pendant mewn rhai rhywogaethau, a'r mwyaf dramatig ohonynt yw'r **tortrics afalau brown golau** *Epiphyas posvittana*. Cafodd ei gofnodi gyntaf yng Nghernyw yn 1936, ond cymerodd y gwyfyn Awstralaidd hwn 20 mlynedd i gyrraedd Dyfnaint cyfagos, ond o hynny allan aeth o nerth i nerth gan wladychu gerddi de Prydain drwy'r 1980au. Fe'i cafwyd gyntaf yng Nghymru, ym

nhrap ers 1999 cynnydd graddol ac yna chwyddo yn y tair blynedd diwethaf. DB.



[ukmoths.org.uk/show.php?bf=998](http://ukmoths.org.uk/show.php?bf=998) a [www.trawsgoed.com/](http://www.trawsgoed.com/)



Morgannwg yn 1990 ac fe gyrhaeddodd Meirionnydd erbyn 2002 (*The State of Britain's Larger Moths, Rothamstead Research 2002*). Dyma'r niferoedd yn fy

**Carlwm Ioan Bryn** Y llun o'r carlwm [Rhifyn 11] yn f'atgoffa am garlwm welais uwchben Traeth Graig Ddu, Morfa Bychan yn rholio a gwthio anferth o gwningen roedd o wedi'i lladd - ar draws cae am tua hanner canllath, dwi'n siŵr, er mwyn ei chuddio wrth fôn y gwrych. Roedd cryfder a dycnwch di-ildio y carlwm wedi fy synnu.

## Blwyddyn y dad-ddeilio mawr

"The year of the caterpillar 1979": Defoliation [of oaks] on a scale not seen for a number of years with whole hillsides looking more like January than June, especially in North Wales but also in Cheshire and Lancashire, mid Wales, Devon and Dorset

Harding Quart. Jour. Forestry 2002



Niwl oer y bore 'ma ond tynerodd at y prynhawn. Llauer o *Erannis defoliaria* [y dad-ddeiliwr] yng ngolau'r car. Neb yn meddwl mai hwn oedd bennaf gyfrifol am flingo y derw oll ym Mehefin a Gorffennaf pan oeddynt yn lindys

Dyddiadur Wil Jones 21 Tachwedd 1979

## Lleud i hongian dy gryspas



Ar ôl gweld colofn *Starwatch* (Guardian 17 Tach 2008) dyma Gerallt Pennant yn tynnu'r llun hwn o'r **lloer** gyda'r blaned **Gwener** a **lau** ar 1 Rhagfyr 2008. Ni chewch lun tebyg o'r drindod hon eto tan y flwyddyn 2052 meddai. Dyma ysgrifennodd S T Coleridge yn ei gerdd enwog *The Rhyme of the Ancient Mariner* yn y flwyddyn 1798:

*We listened and looked sideways up!  
Fear at my heart, as at a cup,  
My life-blood seemed to sip.  
Till clomb above the eastern bar  
The horned Moon, with one bright star  
Within the nether tip!*

Dyma ddywedodd Thomas Turner o East Hoathly, Sussex yn ei *Diary of a Village Shopkeeper* ar 6 Mehefin 1760 "In the morn there was a transit of the planet Venus over the sun's disc". Dyma ddywed pobl Llanbedrog, am y tywydd y dylid disgwyl o'r math hwn o leud: "Lleud hongian dy gryspas - lleud sych". Os nad ydych yn deall

hwn, ac eisiau gwybod beth yw ei ystyr, yna ewch i lyfr newydd "Am y Tywydd" gan Twm Elias (Gwasg Carreg Gwalch £12). Yn y siopau rwan!

[www.guardian.co.uk/science/2008/nov/17/astronomy](http://www.guardian.co.uk/science/2008/nov/17/astronomy)

[www.carreg-gwalch.com/eaction/ecom.search/](http://www.carreg-gwalch.com/eaction/ecom.search/)

## Bendithion y Malltod

Yn ystod yr 1980au cefais y profiad erchyll o ddiodeff o'r hyn a ddisgrifiwyd fel "*migranous neuralgia*" neu "*cluster headaches*" gan y meddygon, am gyfnod o flwyddyn. Mewn ymgais i drin y cur pen, cefais brescriptiwn o "Caffergot" gan y meddyg - sef cyfuniad o *Ergotamine* a *Chaffeine*. Mae'n debyg i'r *ergotamine* gael ei brosesu o'r ffwng *Ergot* [y mall]. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, caiff *ergotamine* effaith uniongyrchol ar wythiennau'r ymennydd, gan atal spasm sy'n achosi'r poen a gysylltir â *migraine*. Pwrpas ei gyfuno â chaffin yw er mwyn cyflymu'r broses o weithio'r cyffur drwy'r corff. Yn ôl yr atodiad a'r rhybuddion a ddaeth gyda'r meddyginiaeth, rhestrir y sgileffeithiau canlynol gyda'r defnydd o'r *ergot*. Diffyg cylchrediad y gwaed yn y bysedd a bysedd y traed yn arwain at necrosis neu gangrîn mewn rhai sefyllfaoedd.



Newid perspectif cyffredinol o'r chwech synnwyr a rithweledigaethau. Er i *ergotamine* weithio'n hynod o dda i mi, cyfyngwyd yn sylweddol ar ei ddefnydd gan y meddygon, oherwydd y sgileffeithiau peryglus hyn. Mae'n debyg i'r symptomau a restrir uchod adlewyrchu'r hyn a welwyd gyda "*St Antony's Fire*" neu ignis sacer yn y canoloesoedd, wrth i bobol, heb yn wybod iddynt, fwyta *ergot* a dyfai ar

rawn. Y pryd hynny, cafwyd sawl achos o bobl cyffredin yn diodeff o ymdeimlad o losgi'r dwylo a'r traed wedi ei achosi gan effaith yr alcoholid ynghlwm wrth ergot effeithio ar wythiennau eu haelodau. Mae rhai yn dadlau i'r sgileffeithiadau a ddaw o ganlyniad i fwyta ergot esbonio lawer i brofiad ysbrydol neu oruwchnaturiol a gafwyd gan y saint dros y canrifoedd. Pwy a wyr? Megis Treialon Gwrachod Salem ym 1692-3, **la grande peur** 1789 ar gychwyn y chwyldro Ffrengig. Yn stumogau cyrff unigolion o'r Oes Haearn, darganfyddwyd samplau o ergot sydd, yn ôl rhai, yn awgrymu'r defnydd ritiwal o'r ffwng mewbndefodau crefyddol y celtaid cynnar.

Emyr Thomas, Llanrug

L l ê n y P e t h a u B y w

**Union 60 blynedd yn ôl** On January 11th, 1949, at Rhoscolyn, Anglesey, a large falcon was seen swooping on and killing a gull. The falcon followed its prey to the ground, but was prevented from completing its meal by a cottager who then placed two steel gins close to the carcass. When it returned to the spot the falcon stepped into one of the traps. It rose in the air with the trap dangling from one foot, the powerful bird having pulled the anchoring pin clean out of the ground in its efforts to get away. The weight of the trap proved too much for the bird and it was captured uninjured, but it was eventually killed and sent to me for identification. It was a young female,



measuring 23 inches in length, with a wing-span of 51 inches, and weighed three and a half pounds. It was examined by Mr. C. F. Tunnicliffe as well as by myself and we agreed that it was a gyr-falcon...Mr. Tunnicliffe made a series of full-scale drawings of the bird...we were informed that it was definitely a Greenland Falcon (*Falco rusticolus candicans*\*). ... T. G. WALKER British Birds XLIV [TG Walker, fel y bydd llawer un o "oedran arbennig" yn cofio, oedd un o arloeswyr astudio a chyhoeddi am fywyd gwylt yn y Gymraeg]. Meddai John Smith o Oriol Môn: "[the note on the picture] states that it was drawn by Tunnicliffe on 11th January, and the dimensions and weight of the bird seem very close to Walker's notes".

Nodyn\*: Credid bod dau fath o Gyr Falcon (hebog y Gogledd) sef *F.r. candicans*, a *F.r. obseletus* (Gol.). Diolch i nodiadau trwyadl Charles Tunnicliffe ar ei luniau gallwn ddweud mai dyma'r union aderyn y soniodd Walker amdano. Gyda mawr ddiolch i Oriol Môn am eu caniatâd i'w defnyddio.

## Cerigos traeth Porth Neigwl



Chwi ddaearegwyr, rhowch enw ar y cerigos yn y "cerfflyn" hwn a dynnwyd (DB) ar draeth Porth Neigwl yn ddiweddar. Maen iasbis yn y canol? Ai Basalt yw'r cerrig tywyll du?. Tebyg bod yna wahanol fathau o ithfaen a chreigiau igneaidd eraill (y rhai brith) a darnau o fflint (cludiant gan rewlif o lwerddon efallai?). Mae'n siŵr bod yna ddarnau o lechi (tywyll) a thywdofaen neu grit hefyd (y creigiau golau?). Oes yna ambell i fricsen wedi ei esmwytho gan y môr? Diolch Twm a Geraint am wneud y cynnig cyntaf.

## Dyn Gwellt

14 Chwefror 1880 Gwyntog y boreu. Distewi prydnawn G.D.O. Ellis, Tyhen yn llosgi dyn gwellt...

Dyddiadur William Jones, Moelfre, A'ron, trwy garedigrwydd Mrs Wilma Miners a Miss Davida Roberts

Meddai Twm Elias: Dyma'r unig gyfeiriad at y math yma o beth i mi ei weld. Ai adlais sy' yma o hen Wyl y Goleuni (Chwefror 13) pryd y cynheuid coelcerth a llosgi'r celyn oedd wedi gwarchod y teulu a'r anifeiliaid dros gyfnod y dydd byrraf. Lludw'r celyn wedyn yn cael ei wasgaru ymysg y cnydau oedd yn cael eu hau yn y cyfnod hwn. Yn wreiddiol, roedd hau yr had i fol y fam ddaear yn esgus am hanci-panci! Cristioneiddiwyd hen Wyl y Goleuni baganaidd drwy benodi'r santesau Ffolant a Dwynwen fel santesau cariad (gwryfon ymgysgrogd i gariad eneidol yn hytrach na chariad corfforol sylwer!). Y Forwyn Fair (wryf) yn lle'r fam ddaear, canhwyllau'r offeren (Gwyl y Canhwyllau, Chwefror 2il) yn lle'r goelcerth, ac wrth gwrs Dydd Mercher y Lludw (gwyl symudol 40 niwrnod cyn y Pasg), sy'n digwydd o gwmpas y cyfnod hwn. A oes rhywun arall wedi dwad ar draws rhywbeth tebyg?.

## [www.lfansadwrn-wx.co.uk/daily/diary.html](http://www.lfansadwrn-wx.co.uk/daily/diary.html)

Dec 1st, Llansadwrn: A fine and bright morning, no air frost but with -1.3C on the grass there were some ice pellets remaining. The ground was unfrozen, but there was some ice formed on water. Sunny spells continued through the day with any showers keeping away. At 1830 GMT there was a good view, between variable cloud, **very low in the western sky of an orange coloured crescent moon with Venus and Jupiter close by [gweler uchod]**. At 2200 GMT there was a moderate shower of small wet snow pellets that covered the ground with slush, followed by sleet and a few very small flakes of snow.

L l ê n y C r e i g i a u

## Colofn Huw a Twm



Weithiau mae gan awyr digwmwl ei stori. "Frost or dew in the morning light shows no rain before the night" meddai un dywediad. Daw gwllith ar nosweithiau tawel, clir ac oer. Heb gymylau mae'r ddaear yn gollwng ei wres i'r atmosffer ac o'r herwydd, ar wyneb y ddaear mae'r gwllith yn rhewi gan roi barrug. Mae'n debygol o dan yr amodau sefydlog hyn y bydd yn parhau hyd oriau'r dydd. Dyna paham fod y dywediad yn gywir gan amlaf. Fodd bynnag, os diflanna'r gwllith a'r barrug cyn y bore yna disgwyliet dywydd mwynach a glaw. Na, "nid yn y bore y mae canmol diwrnod teg" bob amser.

**Ôl nodyn** i golofn Huw a Twm yn Rhifyn 11: Bore'r 27ain Tachwedd gwelais bwt o enfys i'r gorllewin dros Fae Caernarfon o'm gardd yn Waunfawr am 9 o'r gloch. Ar y pryd roedd hi'n dywydd teg, golau ond lled gymylog gyda'r gwynt o'r de orllewin. Erbyn 9.30 daeth yn law, a hynny'n drwm iawn. Parhaodd am gryn awr. "Enfys y bore...." (Gol.)

## Cofio.....Joan Addyman (1917-1992)



Joan efo Annwyl, y cyw dylluan

Gweithwraig difflino gyda ieuencid Talsarnau, Meirionnydd oedd Joan. Ar ôl gyrfa yn cadw siop a chario allan i holl dai a ffermydd y fro, ymddeolodd i rannu ei diddordeb mewn adar gyda phobl ifanc y pentref a manteisio ar y gwreiddiau a fagodd ymysg y bobl. Sefydlodd brosiectau tymor hir, trefnodd wibdeithiau di-rif, ac enillodd wobwr Tywysog Cymru ac MBE am ei gwaith.

## Malwod.. malwod, miloedd

Dyma fwy am falwod yn dilyn sylwadau Harri Williams yn Rhifyn 10. Meddai Bethan Wyn Jones: "Mae yna nifer o wahanol fersiynau o'r rhigwm hon o wahanol ardaloedd yn y gogledd. Dyma sut y dysgodd un a fagwyd yn Rhosgadfan i ddweud y bennill:

Malwan, malwan grogan  
Tyn dy gornion allan,  
Ne mi tafla i di i'r môr mawr  
At y gwartheg cochion



## ....ac o'r Dyddiadur am fwynder gaeaf 1988-89

Malwod yn difa cynydau gaeaf oherwydd y mwynnder. (adroddiad Byd Amaeth y BBC, 7 Ion 1989)

Dydd Nadolig mwynaf y ganrif yn ne Lloegr 1988  
Rhagfyr mwynaf erioed yn ne Lloegr 1988

## Malwoden newydd dda

1 Ion 2008 Neges BLWYDDYN NEWYDD DDA y llynedd gan gyfeilles o Laneilian: "Dyma agor y drws am funud i hanner nos i ollwng y flwyddyn newydd i mewn i'r Wern 'ma a be welais ond malwoden ar y wal a llithan ar y llwybr! Gan ei bod yn bwrw glaw mân dyma fynd i'r tŷ i nôl côt a welingtons i wneud cyfrifiad cyntaf 2008. Wedi rhyw reci bach sydyn cyfrais 48 o lithod amrywiol, dwy falwoden ardd gyffredin ac un falwoden gyda chylchoedd melyn a du. Ar wahan i ddwy lithan roedd y lleill i gyd yn weddol fach. Yn anffodus tydw i ddim yn nabod malwod a llithod yn rhy dda. Bob bendith yn 2008". Ionawr 2008 oedd y 3ydd cynhesaf ers 1988 a'r ail wlypaf [Gol.]

## Bilidowcars Pont Briwet

Mulfrain yn defnyddio peilon i glwydo wrth Bont y Briwet, Penrhyndeudraeth yn yr '80au. (Llun gan y diweddar Ted



Breeze Jones). Ydyn nhw'n dal yno? Ar y dde mae gweddillion eu bwyd a gasglwyd yno.

## Y Piod Môr Melyn 'na..... (Rhifyn 11)

*We have got a number of sightings now, several from members of the public, so the more that people are aware of the work we are doing the better. So far, most sightings have just come from Whiteford and Pembrey, where birds were marked (though with some interchange between the sites), though a couple of birds have also been seen on the Gwendraeth river (part of the Three Rivers Estuary leading into Carmarthen Bay).*

Niall Burton o'r BTO